

Costau am reolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig

Pwy sy'n talu

Codir tâl ar weithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy am reolaethau swyddogol. Dyma'r safleoedd:

- lladd-dai
- ffatrioedd torri
- sefydliad trin helgig
- safleoedd torri

Caiff hyn ei reoleiddio gan gyfraith rheolaethau swyddogol y Comisiwn Ewropeaidd a'i weithredu gan y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Codir tâl hefyd ar weithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy am waith na chaiff ei reoleiddio gan gyfraith rheolaethau swyddogol y Comisiwn Ewropeaidd. Enghraifft o hyn yw codi tâl am yr amser a dreulir yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol fel a ganlyn:

- dogfennau ar symud yn fewnol
- ardystio allforion
- dilysu cydymffurfiaeth â gofynion allforio trydydd gwledydd

Rydym ni'n codi tâl ar Adrannau Llywodraethol a chwsmeriaid eraill am waith rydym yn ei gyflawni ar eu rhan. Er enghraifft, am wiriadau ar fesurau rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid, neu traddodi darlithoedd arbenigol i brifysgolion.

Y rheswm dros godi tâl

Mae'n rhaid i ni godi tâl ar weithredwyr busnesau bwyd am reolaethau swyddogol yn unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi hefyd yn gofyn i ni, fel y nodwyd yn y cyhoeddiad [Rheoli Arian Cyhoeddus](#), i godi tâl ar fusnesau am y gwasanaethau a ddarparwn iddynt.

Sut mae'r costau'n gweithio

Rydym ni'n codi tâl fesul awr am ddefnyddio ein hadnoddau staff. Gellir rhoi gostyngiadau ar gyfer rhai o'r taliadau hyn.

Adnoddau

Mae graddau ein staff naill ai'n:

- Milfeddyg Swyddogol cyflogedig neu wedi'i gontractio
- Arolygwr Hylendid Cig cyflogedig neu wedi'i gontractio

Yng Ngogledd Iwerddon mae yna Arolygwyr Hylendid Cig Uwch, Arolygwyr Hylendid Cig dofednod, Arolygwyr Hylendid Cig Coch a Milfeddygon Swyddogol

Gostyngiadau

Efallai y bydd gostyngiadau ar gyfer costau rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig cymeradwy wedi'i datblygu gan y Gr?p Llywio ar Godi Tâl am Reolaethau Cig. Nid oes gostyngiadau ar gyfer costau ffatrioedd torri.

Cefndir

Ym mis Medi 2012, gofynnem ni i'r diwydiant cig weithio gyda ni i ddatblygu system ostyngiadau ar gyfer y diwydiant cig a fyddai'n:

- hyrwyddo effeithlonrwydd
- cefnogi gwella cydymffurfiaeth (o fewn cylch gwaith dadreoleiddio)
- cefnogi mentrau bach a chanolig yn briodol
- darparu trefniant gostyngiadau cytbwys a chyfiawn

Ymgynghorwyd ar gynigion y gr?p yn 2015 a chytunwyd arnynt gan bwyllgorau rheoleiddiol y llywodraeth cyn gweithredu ym mis Ebrill 2016.

Gallwch chi ddod o hyd i fanylion penodol y system gostyngiadau sydd wedi'i ddatblygu yn nofennau Gr?p Llywio ar Gostau Cig.

Ail gam gwaith y Gr?p Llywio oedd datblygu model cyllid cynaliadwy i reolaethau swyddogol cig.

Adroddodd y Gr?p Llywio i'n Bwrdd fis Mawrth 2017, ac fe gytunwyd y byddai'r Gr?p a'i waith yn dod i ben tan i ni Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Canllaw Costau

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybod i chi sut rydym ni'n codi tâl am gyflenwi rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n egluro'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw wrth godi tâl am reolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig, a sut caiff y costau eu cyfrifo.

Mae'r canllaw yn esbonio'r polisi codi tâl am reolaethau cig, ac yn cynnwys manylion am y canlynol:

- pam fod yn rhaid codi tâl
- pwy sy'n talu a faint sy'n cael ei godi
- beth sydd wedi'i gynnwys yn y gost, a beth sydd heb
- sut caiff y gost ei chyfrifo
- sut caiff disgowntiau eu cyflwyno
- ffyrdd o leihau eich costau
- ffyrdd o dalu
- sut bod defnyddio cynorthwywyr arolygu safleoedd yn effeithio ar y costau
- y weithdrefn i'w dilyn os ydych chi'n meddwl bod eich costau'n anghywir
- y cyfraddau perthnasol – costau fesul awr a bandiau gostyngiad

England a Wales

[Charges guide for England and Wales 2018-2019](#) (293.06 KB)

England a Wales

[Charges guide for England and Wales 2016-2017](#) (584.94 KB)

Northern Ireland

[Northern Ireland charges guide](#) (847.42 KB)

[National archives previous charges guides](#)

Data costau

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi dadansoddiad o'r costau ac yn esbonio sut y codir tâl i'r diwydiant bob blwyddyn ariannol.

Dangosir costau sy'n gysylltiedig â chig yr ASB mewn dau gategori: costau uniongyrchol a chostau anuniongyrchol. Maent hefyd wedi'u rhannu gan gostau:

- Arolygwyr Hylendid Cig
- Milfeddygon Swyddogol

Caiff cyfanswm y costau eu rhannu â nifer yr oriau a weithiwyd. Mae hyn yn cyfri'r costau fesul awr am Arolygwyr Hylendid Cig a Milfeddygon Swyddogol.

Defnyddir y cyfraddau hyn i bennu bil misol pob ffatri gig. Mae gostyngiad wedi'i gynnwys ar fil y mwyafrif o ffatrioedd, felly nid oes angen iddynt dalu'r costau llawn.

Caiff y broses data costau ei ddefnyddio i nodi cyfran costau anuniongyrchol yr ASB sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol cig sy'n cael eu rhannu i'r cyfraddau Arolygwyr Hylendid Cig a Milfeddygon Swyddogol. Mae'r broses data costau a chyfrifo'r cyfraddau tâl yn destun i archwiliad allanol. Ar gyfer 2018/19, cynhaliwyd hyn gan Mazars sy'n gwmni cyfrifyddiaeth, archwilio, trethi ac ymgynghori allanol.

Caiff y broses data costau o ganfod faint o gostau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau swyddogol cig ei datblygu gan ein hadran gyllid. Caiff ei harchwilio'n allanol gan RSM UK, sy'n gwmni archwilio, treth ac ymgynghori allanol.

[Meat hygiene cost data 2018-2019](#) (776.44 KB)

[Meat hygiene cost data 2017-2018](#) (258.79 KB)

[National archives cost data before 2017 - 2018](#)

Cyfrifo costau

Mae'r ddogfen gyfrifo hon i weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru a Lloegr sy'n ystyried newid eu horiau a/neu eu harferion gweithredu. Gellir ei defnyddio cyn cwrdd â'n rheolwyr maes, i ganfod sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar gostau rheolaethau swyddogol.

Mae'r ddogfen gyfrifo wedi'i rhannu'n dair rhan, sy'n rhoi amcangyfrifon dangosol ar gyfer:

- lladd-dai cig coch
- lladd-dai dofednod
- sefydliadau trin helgig

Dim ond er mwyn cyfrifo'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn benodol a nodir y gellir defnyddio'r teclynnau hyn.

[Meat controls charges calculator 2018-2019](#) (169.47 KB)

[Meat controls charges calculator 2017-2018](#) (180.25 KB)